# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fawrth 21ain o Fai 2019 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.

PRESENNOL: Cyng R Gallie, P Walton, J Phillips, G Evans, D Lewis, W Evans, J Lewis (CSC) and K Bowen (clerc).

YMDDIHEURIADAU: Cyng H James.

COFNODION: Darllenwyd cofnodion CCB 15fed o Fai 2018 a derbyniwyd hwy yn gywir.

MATERION YN CODI: Dim.

ADRODDIAD ARIANNOL:

Trafododd y Cyngor yr adroddiad ariannol

Cyfrif Trysorydd £4872.75

Cyfrif Busnes £16255.26

Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo yr adroddiad ariannol am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2019.

ETHOL CADEIRYDD:

Fe wnaeth y Cyngor ethol Cyng W Evans fel Cadeirydd.

ETHOL IS-GADEIRYDD:

Fe wnaeth y Cyngor ethol Cyng R Gallie fel Is-Gadeirydd.

PENODI PWYLLGORAU NEWYDD:

Etholwyd y Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r Cyng P Walton i eistedd ar y pwyllgor Hawliau Ffordd.

Etholwyd y Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r Cyng D Lewis a G Evans i eistedd ar y pwyllgor Asedau.

Roedd y rheolau sefydlog priodol mewn lle. Roedd diweddariad i'r rheolau ariannol i'w cael eu mabwysiadu yn y cyfarfod Cyngor nesaf.

Roedd y rhestr o dir a asedau yn gywir

Roedd yr yswiriant yn cael ei ystyried yn addas.

Roedd aelodaeth y Cyngor o gyrff eraill yn gywir

Nid oedd eisiau unrhyw newidiadau i drefn cwynion y Cyngor.

Roedd trefn y Cyngor i ddelio efo ceisiadau a wnaed dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r Rheol Diogelu Data Cyffredinol 2018 yn gywir.

CYFLOG Y CLERC:

Ar gais y Cadeirydd fe adawodd y clerc y stafell yn ystod y drafodaeth ynglyn cyflog y clerc. Wedi dychwelyd hysbyswyd y clerc fod cyflog y clerc yn mynd i godi i £1400.00 am 2019/20 i adlewyrchu y cynnydd mewn Gwaith.

ASESIAD RISG:

Cafodd yr asesiad risg ei adolygu gan y Cyngor. Penderfynwyd y dylai polisi yswiriant y cyngor gael ei ddanfon at bob cynghorydd i gael ei adolygu.